Llythyr Agored at y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru

Annwyl Gomisiynwyr,

Mae Cymru ar daith at annibyniaeth; ac rydyn ni am hwyluso'r ffordd i ddyfodol annibynnol blaengar.

Fel mudiadau a phleidiau unigol, mae gennym amryw o safbwyntiau ar fanylion gwaith eich Comisiwn.

Ysgrifennwn ar y cyd er mwyn tanlinellu un egwyddor benodol sydd gennym yn gyffredin: hawl sylfaenol pobl Cymru i benderfynu eu statws cyfansoddiadol eu hunain.

Yn nhermau gwaith eich Comisiwn, galwn felly am yr hawl i Gymru, drwy ei Senedd etholedig, benderfynu a ddylai fod yn wlad annibynnol ai peidio, a hynny heb ymyrraeth gan San Steffan.

Dylai fod proses a mecanwaith eglur a fydd yn caniatáu i Gymru gynnal refferendwm ar annibyniaeth. Dylai amseriad a manylion cysylltiedig y bleidlais honno fod yn faterion i bobl Cymru a'u Senedd benderfynu arnyn nhw, nid San Steffan.

Rydyn ni wedi gweld canlyniadau difrifol yn deillio o ddiffyg eglurder a hawliau is-wladwriaethau fel Catalwnia sydd mewn sefyllfa debyg. Mae perygl y bydd rhywbeth tebyg yn digwydd yma os nad yw Goruchaf Lys y Deyrnas Gyfunol, yn ddiweddarach eleni, yn amddiffyn hawliau sylfaenol yr Alban i gynnal refferendwm yn unol â'r mwyafrif o blaid hynny yn ei deddfwrfa.

Galwn felly arnoch chi i ddatgan yn glir y dylai mwyafrif yn Senedd Cymru fod â'r grym dilyffethair i gynnal refferendwm ar annibyniaeth i Gymru.

Yr eiddoch yn gywir

Talat Chaudhri, Cadeirydd, Melin Drafod
Anthony Slaughter, Arweinydd, Plaid Werdd Cymru
Dylan Lewis-Rowlands, Cyd-gadeirydd, Llafur dros Gymru Annibynnol
Harriet Protheroe-Soltani, Pawb Dan Un Faner Cymru
Sam Coates, Undod
Mabli Siriol, Cadeirydd, Cymdeithas yr Iaith
Elfed Williams, Cadeirydd, YesCymru
Luke Fletcher AS, Plaid Cymru

Open Letter to the Independent Commission on the Constitutional Future of Wales

Dear Commissioners,

Wales is on a journey to independence; and we want to forge a path to a progressive independent future.

As individual organisations and parties, we have a range of views on the specifics of your Commission's work.

We are jointly writing to underline one particular point of principle that we have in common: the fundamental right of the people of Wales to decide their own constitutional status.

In terms of the work of your Commission, we therefore call for the right for Wales, through its elected Senedd, to decide whether or not it should be an independent country, without interference from Westminster.

There should be a clear process and mechanism that will allow Wales to hold a referendum on independence. The timing and associated details of that vote should be matters for the people of Wales and their Senedd to decide, not Westminster.

We have seen serious consequences arising from a lack of clarity and lack of rights of sub-states like Catalonia facing similar circumstances. We see a similar danger developing here if the UK Supreme Court does not later this year protect Scotland's fundamental right to hold a referendum consistent with the majority view of representatives in its legislature.

We therefore call for your Commision to make clear that a majority in the Senedd should have the power, unfettered by Westminster, to hold a referendum on independence for Wales.

Yours faithfully

Talat Chaudhri, Chair, Melin Drafod
Anthony Slaughter, Leader, Wales Green Party
Dylan Lewis-Rowlands, Co-chair, Labour for an Independent Wales
Harriet Protheroe-Soltani, All Under One Banner Cymru
Sam Coates, Undod
Mabli Siriol, Chair, Cymdeithas yr Iaith
Elfed Williams, Chair, YesCymru
Luke Fletcher MS, Plaid Cymru